# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd S.L. Davies (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
D.M. Cundy, S.A. Curry, C.A.. Davies, W.R.A. Davies, H.L. Davies, J.K. Howell, S. Matthews, H.B. Shepardson, A.Vaughan Owen and W.T. Evans (In place of G.B. Thomas)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 11.25 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Jones a G. B. Thomas ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol L.M.Stephens (Y Dirprwy Arweinydd), P.M. Hughes (Diogelu'r Cyhoedd) a P. Hughes Griffiths (Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| S.L. Davies | 5 – Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin– Tudalen 73 – GA2/h35-Cefncaeau, Llanelli (280 o unedau – S/34991) | Mae eisoes wedi mynegi gwrthwynebiad i'r cais cynllunio |
| S.L. Davies | 5 – Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin– Tudalen 73 – Fferm Genwen, y Bynie (240 o unedau S/22242) | Mae eisoes wedi mynegi gwrthwynebiad i'r cais cynllunio |
| D. Cundy | 5 – Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin– Tudalen 73 – Fferm Genwen, y Bynie (240 o unedau S/22242) | Mae eisoes wedi mynegi gwrthwynebiad i'r cais cynllunio |

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

**4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

**5. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2016/17 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN**

(NODER: Roedd y Cynghorwyr D.Cundy ac S.L. Davies eisoes wedi datgan diddordeb anariannol yn yr eitem hon o ran y cyfeiriadau ar dudalen 73 i geisiadau cynllunio S/34991 a S/22242

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17 i'w ystyried ynghylch gweithrediad Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, a luniwyd yn unol â gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol 2016. Nodwyd mai hwn oedd yr ail adroddiad a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod, yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn ffurfiol ar 10 Rhagfyr, 2014, a byddai'n cael ei gyflwyno maes o law i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017.

Nododd y Pwyllgor yn dilyn cwblhau'r Adroddiad Monitro Blynyddol, roedd y Cyngor yn cael ei argymell i gynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin cynllun a byddai angen i'r cynllun:-

- Ystyried a mynd i'r afael â'r diffyg tir sydd ar gael ar gyfer tai ac ystyried yr ymyriadau angenrheidiol,
- Paratoi rhagor o dystiolaeth ar oblygiadau a chywirdeb amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth is-genedlaethol 2014 a'u hystyried yng ngoleuni'r adolygiad,
- Ystyried dosbarthu a chyflenwi tai a llwyddiant, neu fel arall, y strategaeth, neu ei helfennau o ran bodloni gofynion tai a nodwyd.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith fod y Cyngor yn cynnal dadl ar yr adroddiad ym mis Medi, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y gallai aelodau etholedig gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol ac unrhyw adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio, o ran yr Adroddiad Monitro Blynyddol, er y byddai aelodau etholedig yn cael cyfle i drafod hynny yn y Cyngor gallent hefyd gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i'r adran naill ai'n unigol neu, ar sail trafodaeth wleidyddol. O ran yr argymhelliad i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, petai'n cael ei fabwysiadu gan y Cyngor, byddai ymgynghoriad cyhoeddus eang yn cael ei gynnal. Byddai rôl/sylwadau aelodau etholedig yn ganolog i'r broses adolygu ynghyd â sylwadau partïon eraill â diddordeb gan gynnwys datblygwyr, cyrff y sector cyhoeddus, cynghorau tref a chymuned a'r cyhoedd.

  Wrth gyfeirio at yr Adroddiad Monitro Blynyddol, dywedodd y Pennaeth Cynllunio er bod y cynnwys yn ffeithiol, rôl yr aelodau etholedig wrth ei fabwysiadu oedd holi ynghylch yr ystadegau a oedd yn sail i gynhyrchu'r adroddiad. O ran adolygiad arfaethedig y Cynllun Datblygu Lleol, roedd

cyfranogiad aelodau etholedig yn hanfodol i'r broses adolygu gyfan.

- Mewn ymateb i gwestiwn ar argaeledd tir ar gyfer datblygu tai a chynnwys safleoedd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, cynghorwyd y Pwyllgor bod y meini prawf ar gyfer cynnwys safleoedd yn fwy llym na'r hyn a fu gyda pherchnogion/datblygwyr tir blaenorol yn gorfod profi'r bwriad o hwyluso'r datblygiad. Yn unol â hynny, os nad oedd y bwriad yn dod i'r amlwg, ni fyddai presenoldeb safle yn y cynlluniau datblygu presennol neu flaenorol, yn ddigon i gyfiawnhau ei gynnwys o dan yr adolygiad.
- Cyfeiriwyd at ganfyddiadau'r Astudiaeth ar y Cyd o ran Tir ar gyfer Tai 2017 a oedd yn dangos bod gan y Cyngor gyflenwad o dir ar gyfer tai am 4.1 mlynedd sy'n cynrychioli diffyg o 0.9 ar y gofyniad ar gyfer cyflenwad 5 mlynedd, fel y nodwyd yn Nodyn Cyngor Technegol 1. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd y diffyg hwnnw wedi'i gyfyngu i ardaloedd gwledig lle'r oedd consensws cyffredinol bod diffyg tir adeiladu. Cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod y diffyg i'w briodoli i gyfuniad o fethodoleg Llywodraeth Cymru wrth gyfrifo'r cyflenwad tir a'r gofyniad uchel o fewn y Cynllun Datblygu Lleol presennol ar gyfer darparu 15,197 o dai newydd dros gyfnod pum mlynedd y cynllun. O ran cyd-destun ehangach Cymru, roedd yn amlwg bod y cyflenwad 5 mlynedd yn cael ei fodloni dim ond pan oedd y galw yn uchel gan adeiladwyr tai. Fodd bynnag, dylid cydnabod wrth i amser fynd rhagddo, byddai darparu a nodi cyflenwad tir dros bum mlynedd yn fwy heriol.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y broses ymgynghori ar gyfer cyflwyno safleoedd i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, dywedwyd wrth y Pwyllgor na allai'r ymgynghoriad gychwyn hyd nes y byddai Cytundeb Cyflenwi'r Cynllun yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhagwelwyd y gallai ymgynghoriadau ddechrau yn ystod gwanwyn 2018. Er y byddai'r ymgynghoriadau hynny yn cael eu cynnal drwy wahoddiad agored, byddai'r adran hefyd yn targedu sefydliadau partner penodol, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, adrannau mewnol y cyngor a datblygwyr i gael eu barn ar y cynlluniau datblygu ac i dynnu sylw at y pwysau posibl ar y seilwaith a allai ddod i'r amlwg e.e. gofyniad posibl am ysgolion a chyfleusterau iechyd newydd. . Fel rhan o'r broses honno, roedd yr adran wedi dechrau adolygiad o'r ddarpariaeth seilwaith.
- Cyfeiriwyd at yr effaith bosibl y gallai datblygiadau mawr ei chael ar seilwaith cymunedol, a mynegwyd pryder nad oedd aelodau lleol yn cael eu cynnwys yn ddigonol wrth baratoi Cytundebau Adran 106, ac wrth nodi meysydd o fewn eu wardiau a allai elwa ar gyllid Adran 106. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio fod swyddogion yn edrych ar hyn o bryd ar sut y gellir gwella cyfranogiad aelodau lleol yn y broses.
- Cyfeiriwyd at y gofyniad i gynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio gyda chymunedau ac ymgyngoreion statudol ar fathau penodol o ddatblygiad. Mynegwyd y farn nad oedd y broses yn effeithiol, gan nad oedd y cyfranwyr yn cael adborth ar yr ymgynghoriad. Atgoffodd y Rheolwr Blaen-gynllunio y Pwyllgor mai cyfrifoldeb y datblygwyr ac nid yr adran gynllunio oedd cynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio, mewn amgylchiadau o'r fath. Yn hynny o beth, gan fod y Cyngor ei hun yn ddatblygwr, roedd gwaith yn cael ei gynnal ar y broses cyn ymgeisio gyda'r nod o ddarparu enghraifft o arfer gorau i'w rannu â datblygwyr.
- Mewn ymateb i gwestiwn ym mharagraff 2.41 o'r adroddiad a'r disgwyliad y byddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned ynghylch paratoi Cynlluniau Lleoedd, cynghorodd y Pwyllgor

fod yr adran yn archwilio'r arfer a'r arweiniad a ddarperir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar ei baratoadau. Fodd bynnag, er ei bod yn bwysig i gymunedau ymgysylltu â'r cyngor i hwyluso dilyniant cynlluniau, byddai hefyd angen iddynt ystyried yr amserlenni arfaethedig ar gyfer mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

- Mewn ymateb i gwestiwn ar nodi safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr, atgoffodd y Pennaeth Cynllunio y Pwyllgor fod y Cyngor wedi cyflwyno Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru yn 2016, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Tai Cymru 2014. Yn dilyn cadarnhad ar 28 Mawrth, 2017 gan Weinidog Cymru fod yr asesiad wedi'i dderbyn, byddai bellach yn symud ymlaen drwy broses wleidyddol y Cyngor. Roedd trafodaethau hefyd ar y gweill gyda'r isadran dai ar nodi a chynnwys safle posibl yn y Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol, oherwydd byddai angen i'r Cyngor ddangos ei fod wedi archwilio ac asesu'r angen am Lety Sipsiwn a Theithwyr  yn y Sir fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol.
- Mewn ymateb i gyfeiriadau at yr effaith y gallai Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'r Ganolfan Lesiant ei chael ar yr angen am dai ychwanegol a seilwaith yn ardal Llanelli, cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio y byddai adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn galluogi'r Cyngor i edrych ar effaith datblygiadau mawr ar y seilwaith lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus, atal ymgripiad trefol ac amddiffyn cymunedau penodol.
- Cyfeiriwyd at y gostyngiad a'r sefydlogi posibl yn y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin a'r effaith bosibl y gallai datblygiadau/buddsoddiadau mawr megis y Ddinas-ranbarth a'r Ganolfan Lesiant ei chael ar y duedd honno. Cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio er bod ffigurau poblogaeth yn dangos tuedd a oedd yn gostwng, roedd yn bwysig deall yr heriau o ran twf a'u heffaith bosibl ar gymunedau. Fel rhan o'r dadansoddiad hwnnw, byddai angen rhoi ystyriaeth hefyd i gynnal y boblogaeth bresennol drwy ddarparu cyflogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc.
- Cyfeiriwyd at amcanion y Cynllun Datblygu Lleol, drwy ddefnyddio polisïau cynllunio tir, i hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy drwy hwyluso'r gwaith o greu cymunedau ac economïau lleol sy'n fwy cynaliadwy drwy ddarparu mynediad i wasanaethau lleol a chyfleusterau gan leihau'r angen i deithio. Mynegwyd barn ar bwysigrwydd ystyried cynaliadwyedd safle o ran yr amodau hynny cyn ei gynnwys yn y cynllun. Atgoffwyd y Pwyllgor fel rhan o'r drafodaeth a gafwyd yn gynharach, nodwyd bod adolygiad o'r seilwaith yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a fyddai'n cyfrannu at bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.
- Cadarnhawyd petai'r Cyngor yn derbyn yr argymhelliad ar gyfer adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yn manylu ar gynnwys a chanlyniadau'r adolygiad, a Chytundeb Cyflenwi ynghylch yr amserlen yr adolygiad a'r dulliau amseru o ran cyfathrebu ac ymgynghori yn ystod y cyfnod paratoi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL A'R CYNGOR Y DYLID:**

**5.1** **derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017 yn unol â gofynion statudol a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor,**

5.2 **cynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin yn sgil argymhellion a chynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17, ac yn unol â gweithdrefnau statudol**

## 6. ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL SIR CAERFYRDDIN ADRODDIAD AR GYNNYDD A DIWEDDARIAD

Yn dilyn Cofnod 8 o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2016, cafodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd ar y gwaith paratoi a gyflawnwyd ar y broses o fabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 13 Ionawr 2016.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor gan y Rheolwr Blaen-gynllunio at y sefyllfa genedlaethol o ran yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, lle'r oedd Llywodraeth y DU yn ystyried canfyddiadau adolygiad annibynnol cenedlaethol a oedd yn cynnwys argymhelliad i'w ddisodli gyda model hybrid. Byddai hyn yn golygu mabwysiadu cyfuniad o Dariff Seilwaith Lleol lefel isel ac Adran 106 ar gyfer datblygiadau mawr. Er mai hwn oedd y sefyllfa yn Lloegr, roedd y sefyllfa yn wahanol yng Nghymru, oherwydd o dan ddarpariaethau Deddf Cymru 2017, roedd y penderfyniad ynghylch Ardoll Seilwaith Cymunedol yn fater a gafodd ei datganoli. Byddai'r pwerau dros hyn yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018 a byddai hefyd yn ofynnol cyhoeddi Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i addasu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Petai Gweinidogion o'r farn ei bod yn briodol i ail-lunio'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, roedd yn bosibl y byddai angen rheoliadau pellach i hwyluso'r gwelliannau hynny.

Dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio gan nad oedd safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn glir o ran a oedd am symud ymlaen i'w mabwysiadu, ei diwygio neu roi'r gorau iddi, fel y nodir yn rheoliad, ystyriwyd na ddylid paratoi Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin am y tro, hyd nes i Lywodraeth Cymru gadarnhau ei sefyllfa. Petai'r Cyngor yn cefnogi'r dull gweithredu hwnnw, roedd y gofynion presennol o ran Cytundebau Adran 106 a chyfraniadau datblygwyr yn parhau'n berthnasol ac yn parhau i gael eu gweithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn hynny o beth, sicrhau y byddai gan ddatblygwyr, cymunedau a'r cyhoedd eglurder ynghylch unrhyw gyfraniadau y dylid ceisio amdanynt gan unrhyw ddatblygiad. Byddai cyfraniadau o'r fath hefyd yn berthnasol i Reoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, gan gynnwys cyfuno cyfyngiadau hefyd.

Nodwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor pan fyddai cyfeiriad clir ynghylch dyfodol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gael, yr hyn fyddai'n ei disodli neu unrhyw newidiadau i Reoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL A'R CYNGOR Y DYLID:**

6.1 **Nodi'r safbwynt presennol ynghylch dyfodol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, o fewn cyd-destun Cymru a'r cyd-destun cenedlaethol.**

6.2 **Bod y cynnydd o ran paratoi Ardoll Seilwaith Cymunedol Sir Gaerfyrddin yn cael ei atal am y tro hyd nes y ceir canlyniadau ystyriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol, yn sgil Deddf Cymru.**

6.3 **Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno pan fyddai syniad clir yn dod i law ynghylch dyfodol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, unrhyw newidiadau i reoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, neu gynigion am dariff newydd yn ei lle**

6.4 **Bod y cynnydd hyd yn hyd yn cael ei nodi a bod y sylwadau sydd wedi dod i law yn cael eu defnyddio i lywio unrhyw waith ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn y dyfodol neu ar unrhyw beth a ddaw yn ei lle**

## 7. LLOFNODI YN GOFNODAU CYWIR COFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 30AIN MAWRTH, 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 30 Mawrth 2017 gan eu bod yn gywir.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**